

Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith (6317- 31)



Llyfr log y dysgwr
501/1676/9

www.cityandguilds.com
Hydref 2011
Fersiwn 1.0

Am City & Guilds

Fel sefydliad addysg alwedigaethol mwyaf blaenllaw y DU, mae City & Guilds yn arwain y chwyldro talent drwy ysbrydoli pobl i ddatgloi eu potensial a datblygu eu sgiliau. Rydym yn cynnig dros 500 o gymwysterau ar draws 28 o ddiwydiannau drwy 8500 o ganolfannau ac yn dyfarnu tua dwy filiwn o dystysgrifau bob blwyddyn. Mae City & Guilds yn cael ei gydnabod a'i barchu gan gyflogwyr ledled y byd fel arwydd o ansawdd a hyfforddiant eithriadol.

City & Guilds Group

Mae City & Guilds Group yn gweithredu o dair prif ganolfan: Llundain (yn gwasanaethu Ewrop, y Caribî a chyfandiroedd America), Johannesburg (yn gwasanaethu Affrica), a Singapore (yn gwasanaethu Asia, Awstralia a Seland Newydd). Mae'r Grŵp hefyd yn cynnwys y Sefydliad Arwain a Rheoli (cymwysterau rheoli ac arwain), Gwasanaethau Tir City & Guilds (cymwysterau ar y tir), y Ganolfan Datblygu Sgiliau (mae CSD yn gweithio i wella polisi ac arfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn fyd-eang) a'r Cynorthwy-ydd Dysgu (e-bortffolio ar-lein).

Hawlfraint

Oni nodir fel arall, mae cynnwys y ddogfen hon yn hawlfraint © The City and Guilds of London Institute ac ni ddylid ei gopïo, ei atgynhyrchu neu ei ddsbarthu heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw. Fodd bynnag, gall canolfannau cymeradwy City & Guilds ac ymgeiswyr sy'n astudio am gymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF ohoni ar fewnwyd y ganolfan ar yr amodau canlynol:

- gall staff y ganolfan gopïo'r deunydd at ddiben addysgu ymgeiswyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds, neu at ddibenion gweinyddu mewnol yn unig
- gall ymgeiswyr gopïo deunydd ar gyfer eu defnydd eu hunain wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds yn unig

Mae'r *Amodau Copïo Safonol* (gweler gwefan City & Guilds) hefyd yn berthnasol.

Noder: Nid yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn hawlfraint © The City and Guilds of London Institute. Gwiriwch yr amodau ar gyfer eu copïo gyda'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol.

Cyhoeddwyd gan City & Guilds, elusen gofrestrdedig a sefydlwyd i hyrwyddo addysg a hyfforddiant

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir ar adeg mynd i'r wasg. Fodd bynnag, mae cynhyrchion a gwasanaethau City & Guilds yn destun datblygiad a gwella parhaus a chedwir yr hawl i newid cynhyrchion a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn atebolrwydd dros golled neu niwed sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

City & Guilds

1 Giltspur Street

Llundain EC1A 9DD

Ffôn +44 (0)844 543 0033

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

www.cityandguilds.com

learnersupport@cityandguilds.com

Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith (6317- 31)



Llyfr log y dysgwr

www.cityandguilds.com
October 2011
Fersiwn 1.0

City & Guilds
Credwch yn eich gallu



www.cityandguilds.com

Cynnwys

1	Ynglŷn â'ch llyfr log i ddysgwyr	5
1.1	Manylion cyswllt	5
1.2	Cyflwyniad i'r llyfr log	6
2	Ynglŷn â chymwysterau Fframwaith	7
2.1	Beth yw cymwysterau Fframwaith?	7
2.2	Strwythur cymwysterau Fframwaith	8
2.3	Mathau o ganolfannau	10
2.4	Rolau asesu	11
3	Ynglŷn â dysgwyr	12
4	Y broses asesu	13
4.1	Cyn i chi ddechrau	13
4.2	Asesiad ar gyfer eich cymhwyster	14
5	Defnyddio eich llyfr log	16
Uned 301	Deall egwyddorion ac arferion asesu	17
Uned 302	Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith	27
Atodiad 1	Sgan Sgiliau / Skillscan Generig Asesu a Sicrhau Ansawdd	32
Atodiad 2	Sgan Sgiliau / Skillscan Dysgwyr	33
Atodiad 3	Ffurflenni Cofnodi	39
Ffurflen 1	Manylion dysgwyr a chanolfan	40
Ffurflen 2	Proffil dysgwr	41
Ffurflen 3	Rhestr statws arbenigwr / tyst	42
Ffurflen 4	Cynllun asesu, adolygu ac adborth	43
Ffurflen 5	Cofnod tystiolaeth perfformiad	45
Ffurflen 6	Cofnod tystiolaeth cwestiynu	47
Ffurflen 7	Cofnod tystiolaeth trafodaeth broffesiynol	48
Ffurflen 8A	Taflen lleoliad tystiolaeth	50
Ffurflen 8B	Taflen lleoliad tystiolaeth	51
Ffurflen 9	Datganiad asesu a gwirio'r uned	52
Ffurflen 10A	Crynodeb o gyflawniad unedau a chymwysterau	53
Ffurflen 10B	Crynodeb o gyflawniad unedau a chymwysterau	54
Atodiad 4	Crynodeb o bolisiau asesu City & Guilds	55

City & Guilds
Credwch yn eich gallu



www.cityandguilds.com

1 Ynglŷn â'ch llyfr log i ddysgwyr

1.1 Manylion cyswllt

Enw'r dysgwr	
Rhif cofrestru'r dysgwr	
Enw'r ganolfan	
Rhif y ganolfan	
Dyddiad cychwyn	

Dylech gadw cofnod o fanylion cyswllt perthnasol yn y gofod isod. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i wneud nodyn o rifau ffôn a chyfeiriadau e-bost yma.

Eich Aseswr (Aseswyr)	
Eich Sicrhawr Ansawdd Mewnol (SAM)	
Cyswllt Sicrhau Ansawdd	

1 Ynglŷn â'ch llyfr log i ddysgwyr

1.2 Cyflwyniad i'r llyfr log

Bydd y llyfr log hwn yn eich helpu i gwblhau eich cymhwyster. Mae'n cynnwys

- yr unedau y mae angen i chi eu cyflawni i gwblhau eich cymhwyster
- gwybodaeth am eich cyfrifoldebau fel dysgwr
- ffurflenni y gallwch eu defnyddio i gofnodi a threfnu eich gwaith.

Bydd hefyd yn dweud wrthyh chi:

- am gymwysterau
- beth sydd angen i chi ei wneud i gwblhau eich cymhwyster
- pwy fydd yn eich helpu.

Am City & Guilds

City & Guilds yw eich corff dyfarnu ar gyfer y cymhwyster hwn. City & Guilds yw corff dyfarnu mwyaf blaenllaw y DU ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

Mae gwybodaeth am City & Guilds a'n Cymwysterau ar gael ar ein gwefan **www.cityandguilds.com**.

2 Ynglŷn â chymwysterau Fframwaith

2.1 Beth yw cymwysterau Fframwaith?

Fframwaith Cymwysterau a Chredydau

Mae'r Fframwaith yn fframwaith sy'n seiliedig ar greddyddau sy'n disodli'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC/NQF). Mae'r fframwaith yn pennu gwerthoedd credyd i unedau a chymwysterau, gan alluogi dysgwyr a chanolfannau i olrhain dilyniant a chroniad dysgu a sgiliau yn hawdd. Mae'r Fframwaith yn olrhain data cyflawniad drwy rif dysgwr unigryw (RhDU/ULN). Bydd angen i ganolfannau gofrestru gyda'r Gwasanaeth Cofrestru Dysgwyr (LRS) i gael RhDU/ULN ar gyfer eu dysgwyr, drwy e-bostio lrssupport@miap.gov.uk neu drwy ffonio 0845 602 2589, a dweud mai City & Guilds yw eu Sefydliad Dyfarnu (AO).

Rydych chi'n mynd i ymgymryd â **Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith**. Mae'n un o set o gymwysterau a gynlluniwyd ar gyfer aseswyr. Mae'n ffitio i mewn i'r gyfres fel a ganlyn:

Teitl y cymhwyster	Nifer
Lefel 3 Dyfarniad mewn Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu	6317 -30
Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith	6317 -31
Lefel 3 Dyfarniad mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaethau	6317 -32
Lefel 3 Tystysgrif mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol	6317 -33

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr holl gymwysterau ar gyfer aseswyr ar www.cityandguilds.com

2 Ynglŷn â chymwysterau Fframwaith

2.2 Strwythur cymwysterau Fframwaith

Sut mae cymhwyster wedi'i lunio?

Mae pob cymhwyster yn cynnwys nifer o **unedau**. Mae pob uned yn cwmpasu gweithgaredd gwahanol fel y gallwch adeiladu i'r cymhwyster llawn fesul uned. Mae tri math gwahanol o uned:

1. Unedau sy'n seiliedig ar wybodaeth - lle mae'n rhaid i chi ddangos bod gennych yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth ofynnol
2. Unedau sy'n seiliedig ar berfformiad - lle mae'n rhaid i chi ddangos eich cymhwysedd
3. Cymysgedd o'r ddau – lle mae'n rhaid i chi ddangos bod gennych chi'r ddau

Mewn rhai cymwysterau mae 'Rheolau Cyfuno' y mae'n rhaid i chi gydymffurfio â nhw er mwyn cael yr unedau cywir ar gyfer y cymhwyster. Yn y cymhwyster hwn mae'n rhaid i chi gwblhau'r ddwy uned i'w cyflawni.

Unedau gorfodol

Bydd rhaid i chi gwblhau'r ddwy uned Lefel 3 hyn i gael eich cymhwyster:

Uned 301 Deall Egwyddorion ac Arferion Asesu - 3 chredyd

Uned 302 Asesu Cymhwysedd Galwedigaethol yn yr Amgylchedd Gwaith - 6 chredyd

Unedau dewisol

Nid oes unedau dewisol yn y cymhwyster hwn.

Strwythur uned


Mae unedau'n disgrifio'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud i ddangos eich bod yn meddu ar

- y wybodaeth ofynnol (fel yn Uned 301) **a/neu**
- y cymhwysedd i gyflawni'r gweithgareddau (fel yn Uned 302)

Caiff unedau eu rhannu yn

- **Canlyniadau Dysgu** – y gweithgareddau y mae angen i chi eu gwneud
- **Meini Prawf Asesu** – sy'n disgrifio'r hyn mae'n rhaid i chi ei wneud ar gyfer pob gweithgaredd

Bydd y broses o gyflawni eich cymhwyster yn dilyn y math hwn o fodel:



2 Ynglŷn â chymwysterau Fframwaith

2.3 Mathau o ganolfannau

Bydd asesu ar gyfer eich cymhwyster yn cael ei gynnal yn eich canolfan. Efallai mai' ch canolfan chi yw eich lle gwaith, coleg, darparwr hyfforddiant neu gyfuniad o'r rhain.

Mae City & Guilds yn cymeradwyo canolfannau i gynnig cymwysterau ac yn eu monitro'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn bodloni ein safonau ansawdd ac yn dilyn ein polisïau asesu.

Cyfrifoldebau'r ganolfan

Mae eich canolfan yn gyfrifol am weinyddu eich cymhwyster. Bydd staff y Ganolfan yn

- eich cofrestru gyda City & Guilds
- rhoi rhif cofrestru City & Guilds i chi
- gwneud cais am eich tystysgrif(au) pan fyddwch wedi cwblhau eich cymhwyster neu unedau.

Mae canolfannau hefyd yn gyfrifol am eich cefnogi wrth i chi weithio tuag at eich cymhwyster. Bydd Canolfannau yn

- cynnal asesiad cychwynnol gyda chi
- nodi unrhyw ofynion asesu arbennig a allai fod gennych
- dweud wrthyhych am unrhyw ddysgu, hyfforddiant (ac/neu adnoddau) y bydd eu hangen arnoch er mwyn eich helpu i gwblhau eich cymhwyster
- darparu rhaglen gynefino i egluro sut mae'r broses asesu cymhwyster yn gweithio
- cynhyrchu cynllun asesu ar eich cyfer.

2 Ynglŷn â chymwysterau Fframwaith

2.4 Rolau asesu

Bydd y bobl ganlynol yn eich canolfan yn eich helpu i ennill eich cymhwyster.

Yr aseswr

Yr aseswr/tiwtor yw'r person y byddwch mewn cysylltiad ag ef/hi fwyaf wrth i chi weithio tuag at eich cymhwyster. Bydd eich aseswr yn

- eich helpu i nodi unrhyw hyfforddiant sydd ei angen arnoch chi
- cytuno ar gynllun asesu gyda chi
- eich helpu i gynllunio a threfnu eich datblygiad
- eich helpu i nodi ffynonellau tystiolaeth
- eich arsylwi'n cyflawni eich swydd yn y gweithle
- gofyn cwestiynau am y gwaith yr ydych chi'n ei wneud
- gwneud penderfyniadau asesu am y gwaith rydych chi'n ei gyflwyno – tystiolaeth ac aseiniad(au)
- barnu pan fyddwch chi wedi bodloni gofynion y cymhwyster
- rhoi adborth i chi am eich tystiolaeth a'ch aseiniad(au).

Efallai mai eich rheolwr neu oruchwyliwr yn y gwaith yw eich aseswr neu efallai ei fod yn aseswr peripatetig ac yn ymweld â chi yn eich gweithle. Efallai y bydd gennych fwy nag un aseswr yn dibynnu ar y gweithgareddau rydych chi'n eu cwblhau.

Y sicrhawr ansawdd mewnol

Mae'r sicrhawr ansawdd mewnol yn cynnal ansawdd yr asesu yn y ganolfan. Byddant yn sicrhau bod eich aseswr:

- yn rhoi arweiniad addas i chi
- yn gwneud penderfyniadau asesu teg a dibynadwy
- yn rhoi adborth i chi
- yn cadw cofnodion addas

Y gwiriwr allanol

Mae'r gwiriwr allanol yn cael ei gyflogi City & Guilds ac yn sicrhau fod eich canolfan yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer ansawdd ac asesu.

Tystion

Nid yw tystion yn barnu eich cymhwysedd cyffredinol ond gallant roi datganiadau i chi am eich perfformiad, gellir defnyddio'r rhain fel tystiolaeth tuag at gyflawni rhannau o'ch cymhwyster.

3 Ynglŷn â dysgwyr

Rôl a chyfrifoldebau'r dysgwyr

Eich cyfrifoldebau fel dysgwr City & Guilds yw

- rhoi eich manylion personol i'ch canolfan er mwyn eich cofrestru gyda City & Guilds
- cymryd rhan mewn asesiad cychwynnol a sesiwn ymgynefino
- cytuno ar gynllun asesu personol gyda'ch aseswr
- cwblhau unrhyw weithgareddau hyfforddi neu ddysgu a osodwyd gan eich aseswr
- casglu a threfnu eich gwaith fel y cytunwyd arno yn eich cynllun asesu
- mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda'ch aseswr i drafod eich cynnydd ac i newid eich cynllun yn ôl yr angen
- cyfarfod ag aelodau o staff y ganolfan a staff City & Guilds eraill i siarad am eich cymhwyster
- gwneud yn siŵr eich bod yn deall ac yn cydymffurfio â chyfraith a rheoliadau perthnasol fel lechyd a Diogelwch yn y Gwaith, Cydraddoldeb, Diogelu Data ac ati.

Efallai y bydd eich canolfan yn gofyn i chi gytuno a llofnodi cytundeb dysgu gyda nhw i ddangos sut y byddwch yn cael eich asesu ar gyfer eich cymhwyster

Rhif cofrestru'r dysgwr

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw nodyn o'ch rhif cofrestru City & Guilds unigryw ar dudalen flaen y llyfr log hwn.

Bydd angen y rhif hwn arnoch eto os byddwch yn cymryd unrhyw Gymwysterau City & Guilds eraill – neu'n ychwanegu unedau pellach yn y dyfodol. Mae defnyddio'r un rhif cofrestru yn helpu City & Guilds i gadw cofnod o bob uned a chymhwyster rydych chi'n eu cwblhau.

Symud i ganolfan newydd

Os byddwch yn newid swyddi neu'n symud i ganolfan newydd cyn i chi gwblhau eich cymhwyster, efallai y byddwch yn gallu ei gwblhau mewn canolfan newydd. Gofynnwch i'ch canolfan wneud cais am unrhyw dystysgrifau o gredyd uned ar eich cyfer cyn i chi adael, ac yn eu hychwanegu at eich cofnodion cymhwyster.

Bydd ar ganolfan newydd angen eich rhif cofrestru dysgwr, eich cofnodion asesu a thystiolaeth i'ch helpu i gwblhau eich cymhwyster.

4 Y broses asesu

4.1 Cyn i chi ddechrau

Asesiad cychwynnol

Cyn i chi ddechrau gweithio ar eich cymhwyster byddwch yn cyfarfod â'ch aseswr i drafod yr hyn mae angen i chi ei wneud i gyflawni. Gall hyn gynnwys

- gwirio eich bod yn cymryd y cymhwyster cywir ar y lefel gywir
- nodi unrhyw hyfforddiant neu ddysgu y bydd ei angen arnoch i'ch helpu i gwblhau
- cytuno ar gynllun asesu
- llofnodi contract dysgu.

Sgan sgiliau

Fel rhan o'r cyfarfod hwn, byddwch yn trafod y sgiliau a'r wybodaeth sydd gennych eisoes, ac yn penderfynu sut y gellir defnyddio hyn tuag at eich cymhwyster. Weithiau bydd y broses hon yn cael ei chynnal drwy ddefnyddio Sgan Sgiliau. Mae dwy ffurflen sganio sgiliau yn atodiad y llyfr log hwn. Mae un yn gyffredinol ac mae un yn benodol i'r Dyfarniad hwn. Gall y broses sganio sgiliau helpu i gadarnhau a chofnodi'r sgiliau perthnasol sydd gennych eisoes a nodi meysydd i'w datblygu.

4 Y broses asesu

4.2 Aseiad ar gyfer eich cymhwyster

Cyn i chi ddechrau ar eich cymhwyster bydd eich aseswr yn gwneud ac yn cytuno ar gynllun asesu gyda chi. Bydd hyn yn dangos

- yr unedau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun
- pryd y cewch eich asesu
- lle bydd yr aseiad yn cael ei gynnal
- beth fyddwch chi'n ei wneud
- pa dystiolaeth y byddwch yn ei chynhyrchu
- pwy fydd yn eich asesu.

Dylai'r cynllun hefyd ddangos y dulliau asesu i'w defnyddio i gasglu eich tystiolaeth.

Gall tystiolaeth gynnwys

- cydnabod dysgu blaenorol
- arsylwi gan eich aseswr
- cynhyrchion eich gwaith
- datganiadau dysgwyr/datganiadau myfyriol
- prosiectau ac aseiniadau
- cwestiynu – gallai hyn fod yn llafar, yn ysgrifenedig neu ar gyfrifiadur
- trafodaeth broffesiynol
- tystiolaeth gan dystion


Bydd eich canolfan yn esbonio'r gwahanol fathau o weithgareddau a thystiolaeth i chi yn fanylach. Mae ffurflen cynllun asesu y gallwch ei defnyddio yn atodiad y llyfr log hwn.

Adeiladu eich portffolio

Bydd eich aseswr yn eich arwain ar sut i lunio eich gwaith – a chofiwch nad oes rhaid i bortffolio fod yn ffeil wedi'i llenwi â phapur! Dyma awgrym arall o ran sut y gallech lunio portffolio:

Dyma beth mae'r rhan fwyaf o bobl yn meddwl amdano fel 'portffolio'. Bydd yn cynnwys eich asesiad cychwynnol, cynlluniau asesu, cofnodion asesu a'r penderfyniadau a'r adborth gan eich aseswr. Bydd hefyd yn cynnwys manylion am leoliad eich tystiolaeth a'ch gwaith fel bod llwybr archwilio y gall eraill (fel y Sicrhawyr Ansawdd Mewnol ac Allanol) ei ddilyn a fydd am samplu'r gwaith.

Efallai bod eich aseswr wedi eich recordio'n ddigidol gan ddefnyddio offer sain neu weledol. Efallai eich bod wedi bod yn cynnal trafodaeth neu wedi bod yn ateb cwestiynau. Neu gallai fod yn recordiad gweledol o'r adeg y gwnaethant eich arsylwi. Bydd eich aseswr yn cytuno â chi ar y ffordd orau o gofnodi'r gweithgareddau hyn a chadw'r wybodaeth yn eu cofnodion asesu.



Gall hyn gynnwys y Polisiau a'r Gweithdrefnau y mae angen i chi ddangos eich bod yn eu deall. Bydd eich aseswr yn cofnodi ei fod wedi barnu'r rhain fel rhan o benderfyniad asesu a'u cofnodi ar eu cofnodion asesu.

Gall hyn fod yn dystiolaeth sy'n amhosibl neu ddim yn briodol i'w rhoi mewn 'portffolio'. Gallai gynnwys cofnodion cyfrinachol, darn o offer neu strwythur a adeiladwyd gan y dysgwr rydych chi'n ei asesu.

Ffolder cylch
Gyda chynlluniau asesu a chofnodion

Gyriant called/gweinydd cwmni'r aseswr Portffolio tystiolaeth Mewnrwyd cwmni'r dysgwr

"llawr gwaith" y gweithle

5 Defnyddio eich llyfr log

Atodiadau a ffurflenni recordio

Mae'r llyfr hwn yn cynnwys pob un o'r ffurflenni y bydd eu hangen arnoch chi a'ch aseswr i gynllunio, adolygu a threfnu eich gwaith. Bydd eich aseswr yn gallu eich helpu i benderfynu pa ffurflenni y mae angen i chi eu cwblhau ac yn eich helpu i'w llenwi.

Uned 301 Deall egwyddorion ac arferion asesu

Uned 302 Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith

Atodiad 1 Sgan Sgiliau Generig

Atodiad 2 Sgan Sgiliau Dyfarniad

Atodiad 3 Ffurflenni Cofnodi (Gwnewch lungopi o'r ffurflenni hyn fel sy'n ofynnol)

Terminoleg

Awthentig	Gwaith y dysgwr ei hun.
Cydraddoldeb	Cyflwr o driniaeth deg sy'n hawl i'r holl bobl waeth beth fo'r gwahaniaethau mewn, er enghraifft, diwylliant, gallu, hil, rhyw, crefydd, cyfoeth, cyfeiriadedd rhywiol, neu unrhyw nodwedd grŵp arall
Amrywiaeth	Cydnabod bod pob unigolyn yn unigryw a chydabod ein gwahaniaethau unigol mewn, er enghraifft, diwylliant, gallu, rhyw, hil, crefydd, cyfoeth, cyfeiriadedd rhywiol, neu unrhyw nodwedd unigol arall.
Tystiolaeth	Tystiolaeth o wybodaeth, dealltwriaeth, sgil neu gymhwysedd dysgwr y gellir ei defnyddio i benderfynu ar ei gyflawniad yn erbyn safonau/meini prawf y cytunwyd arnynt
Dysgwr	Y person sy'n cael ei asesu gan aseswr ymgeisyddol
Dibynadwy	Cyflawni'r un canlyniadau'n gyson gyda gwahanol aseswyr a'r un grŵp (neu grŵp tebyg) o ymgeiswyr.
Gofynion	Gallai'r rhain fod yn ofynion sefydliad yr ymarferydd ei hun neu ofynion sefydliad allanol, megis sefydliad dyfarnu.
Digonol	Digon o dystiolaeth fel y nodir yn y Gofynion Tystiolaeth neu'r Strategaeth Asesu.
Dilys	Perthnasol i'r safonau/meini prawf y mae'r ymgeisydd yn cael ei asesu yn eu herbyn.
Teg	Sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal i gael asesiad gwrthrychol a chywir.

Lefel: 3

Gwerth credyd: 3

Canllawiau cyffredinol Mae'r uned hon yn asesu gwybodaeth aseswr ymgeisyddol am egwyddorion ac arferion asesu mewn cyd-destun dysgu a datblygu. Gallai tystiolaeth ar gyfer yr uned hon fod ar ffurf:

- datganiadau neu atebion ysgrifenedig gan aseswr ymgeisyddol
- datganiadau neu atebion llafar gan yr aseswr ymgeisyddol
- trafodaethau rhwng yr aseswr ymgeisyddol a'i aseswr ei hun
- aseiniadau
- prosiectau

Gellid cynhyrchu tystiolaeth sylweddol ar gyfer yr uned hon ar ffurf datganiadau a thrafodaethau os yw'r aseswr ymgeisyddol yn rhoi cynnig ar unrhyw un o'r unedau canlynol ar yr un pryd â'r un hwn:

- Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith
- Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth

Canlyniadau Dysgu

Bydd yr aseswr ymgeisyddol yn:

1. Deall egwyddorion a gofynion asesu

Meini prawf asesu

Mae'r aseswr ymgeisyddol yn gallu:

1.1 esbonio swyddogaethau asesu mewn dysgu a datblygu

1.2 diffinio cysyniadau ac egwyddorion allweddol asesu

1.3 esbonio cyfrifoldebau'r aseswr

Rhaid i'ch gwaith ddangos eich bod yn gwybod ac yn deall:

Rolau:

- asesiad cychwynnol wrth nodi anghenion dysgwyr
- asesiad ffurfiannol wrth olrhain cynnydd dysgwyr
- asesiad crynodol wrth asesu cyflawniad dysgwyr

Y cysyniadau a'r egwyddorion allweddol canlynol:

- asesu fel proses o lunio barn am wybodaeth, sgiliau a chymhwysedd dysgwyr yn erbyn meini prawf penodol
- beth mae dilysrwydd a dibynadwyedd yn ei olygu
- rôl tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau asesu
- beth mae tystiolaeth awthentig, digonol a chyfredol yn ei olygu
- pwysigrwydd gwrthrychedd a thegwch i ddysgwyr
- pwysigrwydd tryloywder i'r dysgwr

Y cyfrifoldebau aseswr canlynol:

- deall a chymhwyso'r safonau a'r gofynion maen nhw'n gweithio iddynt
- cynllunio asesiadau i ddiwallu anghenion dysgwyr
- cyfleu gofynion asesu i ddysgwyr
- cynnal asesiadau
- cymharu tystiolaeth â safonau penodol
- gwneud penderfyniadau asesu
- cofnodi'r broses asesu a phenderfyniadau
- rhoi adborth i ddysgwyr
- cymryd rhan mewn prosesau safoni
- cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus

Cyfleoedd asesu cyfannol

Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:

- Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith

Canlyniadau Dysgu Bydd yr aseswr ymgeisyddol yn:	Meini prawf asesu Mae'r aseswr ymgeisyddol yn gallu:	Rhaid i'ch gwaith ddangos eich bod yn gwybod am y canlynol ac yn eu deall:
	1.4 nodi'r rheoliadau a'r gofynion sy'n berthnasol i asesu yn eu maes arfer eu hunain	<ul style="list-style-type: none"> • Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol am eu gweithgareddau asesu. • Y gofynion cyffredinol ar gyfer yr asesiadau maen nhw'n gyfrifol amdanynt – er enghraifft, rhai'r sefydliad dyfarnu neu'r corff rheoleiddio – a'r dogfennau ffynhonnell allweddol. • Pwysigrwydd cydymffurfio â'r strategaeth asesu berthnasol os yn asesu cymhwyster <p>Cyfleoedd asesu cyfannol Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith • Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol am y gofynion ar gyfer yr asesiadau maen nhw'n eu cynnal.
2. Deall gwahanol fathau o ddulliau asesu	2.1 cymharu cryfderau a chyfyngiadau ystod o ddulliau asesu gan gyfeirio at anghenion dysgwyr unigol	<p>Cryfderau a gwendidau pedwar dull asesu gwahanol a ddewiswyd o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • arsylwi perfformiad yn yr amgylchedd gwaith • archwilio cynhyrchion gwaith • trafod gyda'r dysgwr • defnyddio eraill (tystiolaeth gan dystion) • edrych ar ddatganiadau ymgeiswyr • cydnabod dysgu blaenorol • asesiadau mewn amgylcheddau efelychiadol • profion sgiliau • cwestiynau llafar ac ysgrifenedig • aseiniadau • prosiectau • astudiaethau achos <p>Cyfleoedd asesu cyfannol Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith • Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol ynghylch pam maen nhw wedi dewis dulliau asesu penodol.
3. Deall sut	3.1 crynhoi ffactorau allweddol	Y ffactorau canlynol:

Canlyniadau Dysgu

Bydd yr aseswr ymgeisyddol yn:

i gynllunio asesiad

Meini prawf asesu

Mae'r aseswr ymgeisyddol yn gallu:

i ystyried wrth gynllunio asesiad

- anghenion penodol dysgwyr ac unrhyw gymorth sydd ei angen
- sut i reoli'r broses asesu
- cofnodi prosesau a phenderfyniadau asesu
- adborth i ddysgwr
- pwysigrwydd cydymffurfio â'r strategaeth asesu berthnasol os yn cynllunio'r asesiad ar gyfer cymhwyster

Cyfleoedd asesu cyfannol

Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:

- Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith
- Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth

gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol am y ffactorau maen nhw wedi'u hystyried wrth gynllunio eu hasesiadau.

Gwerth asesiad cyfannol o ran:

- casglu tystiolaeth yn effeithlon ar gyfer y dysgwr a'r aseswr
- tystiolaeth y gellir ei defnyddio ar gyfer mwy nag un uned
- nodi sut mae'r dysgwr yn integreiddio er enghraifft, gwybodaeth a dealltwriaeth yn eu harfer

Sut i gynllunio asesiadau fel y gellir cael amrywiaeth o dystiolaeth ofynnol o un achlysur asesu.

3.2 gwerthuso manteision defnyddio dull cyfannol o asesu

3.3 esbonio sut i ddefnyddio asesiad cyfannol wrth gynllunio asesiad Rhaid i'ch gwaith ddangos eich bod yn gwybod am y canlynol ac yn eu deall:

- safonau/meini prawf i'w defnyddio
- mathau a maint y dystiolaeth sydd ei hangen
- dewis o ddulliau asesu
- cyfathrebu â'r dysgwr ac eraill sy'n gysylltiedig
- lleoliad ac adnoddau
- amser a hyd yr asesiad

Cyfleoedd asesu cyfannol

Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:

- Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith
- Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth

gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol ynghylch sut y mae wedi cynllunio asesiadau i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o gynhyrchu tystiolaeth.

Canlyniadau Dysgu

Bydd yr aseswr ymgeisyddol yn:

Meini prawf asesu

Mae'r aseswr ymgeisyddol yn gallu:

Rhaid i'ch gwaith ddangos eich bod yn gwybod am y canlynol ac yn eu deall:

3.4 crynhoi'r mathau o risgiau a allai fod yn rhan o asesu yn eu maes cyfrifoldeb eu hunain

Y risgiau canlynol;

- iechyd a diogelwch
- straen afrealistig/diangen ar y dysgwr
- tystiolaeth nad yw'n awthentig/cyd-dwylo/cymorth na ellir ei gyfiawnhau i'r dysgwr
- gor-asesu
- potensial am annhegwch i ddysgwyr
- methu â bodloni gofynion unrhyw strategaeth asesu berthnasol os yn asesu cymhwyster

Cyfleoedd asesu cyfannol

Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:

- Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith
- Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth

gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol ynghylch sut y gwnaethant nodi risgiau wrth gynllunio'r broses asesu.

3.5 esbonio sut i leihau risgiau drwy'r broses gynllunio

Sut i reoli asesiadau er mwyn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â:

- iechyd a diogelwch
- straen dysgwyr
- potensial ar gyfer tystiolaeth nad yw'n awthentig, cyd-dwylo, cymorth na ellir ei gyfiawnhau i'r dysgwr
- tegwch

Cyfleoedd asesu cyfannol

Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:

- Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith
- Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth

gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol ynghylch sut y gwnaethant leihau risgiau wrth gynllunio'r broses asesu.

4. Deall sut i gynnwys dysgwyr ac eraill wrth asesu

4.1 esbonio pwysigrwydd cynnwys y dysgwr ac eraill yn y broses asesu

Manteision cynnwys dysgwyr yn y broses asesu:

- tryloywder – dysgwyr yn deall y safonau/meini prawf maen nhw'n cael eu hasesu yn eu herbyn a sut y gwneir penderfyniadau asesu
- effeithlonrwydd – dysgwyr yn nodi ac yn darparu tystiolaeth eu hunain, eraill er enghraifft tystion arbenigol yn darparu tystiolaeth

Canlyniadau Dysgu Bydd yr aseswr ymgeisyddol yn:	Meini prawf asesu Mae'r aseswr ymgeisyddol yn gallu:	Rhaid i'ch gwaith ddangos eich bod yn gwybod am y canlynol ac yn eu deall:
		<hr/> <p>Cyfleoedd asesu cyfannol</p> <p>Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith • Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth <p>gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol ynghylch pam maen nhw wedi cynnwys y dysgwr ac eraill.</p> <hr/> <p>Y mathau canlynol o wybodaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • safonau a meini prawf ar gyfer yr asesiad • mathau o dystiolaeth sydd eu hangen a dulliau i'w defnyddio • trefniadau ymarferol • sut y rhoddir adborth • defnyddio deilliannau a chofnodion asesu <hr/> <p>Manteision sy'n deillio o'r dysgwr ac eraill yn cyfrannu at asesu ffurfiannol ac felly cyngori pryd y gallai asesu crynodol fod yn briodol. Manteision sy'n deillio o fod y dysgwr yn datblygu ymdeimlad o berchnogaeth dros y broses ddysgu ac asesu.</p> <hr/> <p>Enghreifftiau o sut y gallai fod angen addasu trefniadau asesu i fodloni:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gofynion iaith • gofynion diwylliannol neu grefyddol • anabledau corfforol • anghenion dysgu penodol • patrymau gweithio <hr/> <p>Cyfleoedd asesu cyfannol</p> <p>Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith • Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth <p>gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol ynghylch sut y gwnaethant addasu trefniadau asesu i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr.</p> <hr/> <p>Sut i ddefnyddio e.e. canllawiau mewnol a/neu ganllawiau'r sefydliad dyfarnu i sicrhau bod y dystiolaeth yn bodloni gofynion.</p> <hr/>
5. Deall sut i wneud penderfyniadau asesu	5.1 esbonio sut i farnu p'un a yw'r dystiolaeth: <ul style="list-style-type: none"> • yn ddilys • yn awthentig 	<hr/> <p>Cyfleoedd asesu cyfannol</p> <p>Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio</p>

Canlyniadau Dysgu

Bydd yr aseswr ymgeisyddol yn:

Meini prawf asesu

Mae'r aseswr ymgeisyddol yn gallu:

- yn gyfredol
- yn ddigonol

5.2 esbonio sut i sicrhau bod penderfyniadau asesu yn cael eu gwneud yn erbyn meini prawf penodedig

- dilys
- dibynadwy
- teg

6. Deall eich cyfraniad eich hun at sicrhau ansawdd asesu

6.1 gwerthuso pwysigrwydd sicrhau ansawdd yn y broses asesu

6.2 crynhoi gweithdrefnau sicrhau ansawdd a safoni yn eu maes arfer eu hunain

Rhaid i'ch gwaith ddangos eich bod yn gwybod am y canlynol ac yn eu deall:

unrhyw un o'r canlynol:

- Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith
- Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth

gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol ynghylch sut y gwnaethant farnu ansawdd y dystiolaeth.

Sut i wneud y canlynol:

- dehongli safonau/meini prawf asesu yn gywir
- paru a mesur tystiolaeth yn erbyn safonau/meini prawf asesu
- sicrhau bod dyfarniadau cyson yn cael eu gwneud yn eu harferion eu hunain a chysylltu ag aseswyr a dilyswyr eraill i sicrhau dibynadwyedd
- ystyried unrhyw bosibilrwydd bod dysgwyr unigol yn cael eu trin yn wahanol i eraill yn y broses asesu

Cyfleoedd asesu cyfannol

Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:

- Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith
- Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth

gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol ynghylch sut y gwnaethant lunio penderfyniadau asesu.

Pwysigrwydd sicrhau ansawdd o ran:

- sicrhau dibynadwyedd penderfyniadau asesu
- tegwch i ddysgwyr unigol
- cynnal hygredded prosesau a phenderfyniadau asesu
- sicrhau cysondeb

Prosesau sicrhau ansawdd a safoni nodweddiadol sy'n berthnasol i'w maes arfer neu ddiddordeb eu hunain.

Cyfleoedd asesu cyfannol

Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:

- Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith
- Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth

gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol ynghylch pam mae'r sicrhau ansawdd a safoni

Canlyniadau Dysgu

Bydd yr aseswr ymgeisyddol yn:

Rhaid i'ch gwaith ddangos eich bod yn gwybod am y canlynol ac yn berthnasol i'w harfer eu hunain.

Meini prawf asesu

Mae'r aseswr ymgeisyddol yn gallu:

	6.3 crynhoi'r gweithdrefnau perthnasol i'w dilyn pan fo anghydfodau ynghylch asesu yn eu maes arfer eu hunain	Gweithdrefnau apelio sy'n berthnasol i'w maes arfer neu ddiddordeb eu hunain.
7. Deall sut i reoli gwybodaeth sy'n ymwneud ag asesu cymhwysedd galwedigaethol	7.1 esbonio pwysigrwydd dilyn gweithdrefnau ar gyfer rheoli gwybodaeth sy'n ymwneud ag asesu	<p>Pwysigrwydd bod yr aseswr ymgeisyddol yn cwblhau ac yn storio cofnodion asesu er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none">• rhoi gwybodaeth gywir am gyflawniad dysgwyr• cyfrannu at brosesau sicrhau ansawdd a safoni• rhoi sail ar gyfer adborth i'r dysgwr ac adolygu cynnydd dysgwyr• sicrhau bod gwybodaeth ar gael os bydd apeliadau <p>Sut mae adborth i'r dysgwr ac eraill yn cynorthwyo tryloywder y broses asesu ac yn cynorthwyo dilyniant dysgwyr.</p>
	7.2 esbonio sut mae adborth a chwestiynu yn cyfrannu at y broses asesu	
8. deall y gofynion cyfreithiol ac arfer da mewn perthynas ag asesu	8.1 esbonio materion cyfreithiol, polisiau a gweithdrefnau, gan gynnwys y rhai ar gyfer cyfrinachedd, iechyd, diogelwch a lles	<h3>Cyfleoedd asesu cyfannol</h3> <p>Os yw'r aseswr ymgeisyddol hefyd yn ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith• Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth <p>gallai rhywfaint o dystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol ynglŷn â sut y gwnaethant roi adborth i'r dysgwr.</p> <p>Gofynion cyfreithiol a pholisïau a gweithdrefnau eich sefydliad eich hun a'ch sefydliad dyfarnu ynghylch:</p> <ul style="list-style-type: none">• iechyd a diogelwch, gan gynnwys lles emosiynol y dysgwr• cyfrinachedd• tryloywder• cadw cofnodion• cyfle cyfartal ac amrywiaeth• cydymffurfio â'r strategaeth asesu

berthna
sol os
yn
asesu
cymhw

yster

**Cyfleoedd asesu
cyfannol**

Os yw'r aseswr
ymgeisyddol hefyd yn

ceisio unrhyw rai o'r unedau canlynol:

- Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith
- Asesu sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a

Canlyniadau Dysgu	Meini prawf asesu	Rhaid i'ch gwaith ddangos eich bod yn gwybod am y canlynol ac yn eu deall:
Bydd yr aseswr ymgeisyddol yn:	Mae'r aseswr ymgeisyddol yn gallu:	<p>dealltwriaeth</p> <p>gallai tystiolaeth ar gyfer yr uchod ddod o drafodaeth gyda'r aseswr ymgeisyddol am bolisiau a gweithdrefnau cyfreithiol, sefydliadol a pholisiau a gweithdrefnau'r sefydliadau dyfarnu sy'n rheoli eu harfer.</p>
8.2 esbonio'r cyfraniad y gall technoleg ei wneud tuag at y broses asesu		<p>Sut y gellir defnyddio technoleg i wella'r broses asesu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • tystiolaeth fideo o sgiliau/perfformiad • recordiad o dystiolaeth lafar • portffolio di-bapur • profion cyfrifiadurol/ar-lein
